# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 9 Rhagfyr 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, D.M. Cundy, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, H.I. Jones, K. Madge, B.D.J. Phillips a J.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd Elwyn Williams, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio PL/02285
Y Cynghorydd P.M. Hughes, Yr Aelod Cabinet dros Ddiogelu'r Cyhoedd
Mr G. Morgan, Cynlluniwr Trafnidiaeth gydag Atkins Framework

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
G. Glenister, Swyddog Rheoli Datblygu
C. Greves, Swyddog Rheoli Datblygu [Gorllewin]
E. Jones, Swyddog Rheoli Datblygu
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Evans, Assistant Democratic Services Officer
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 3.40 yp**

**[Sylwer:**

- Am 1:00pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.
- Gohiriwyd y cyfarfod gan y Pwyllgor am 1.00pm am ginio ac ailymgynullwyd am 1.45pm.]

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M.J.A. Lewis a G.B. Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd/Swyddog | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd B.D.J. Phillips | 3: PL/00799 - Datblygiad Un Blaned ar dir i'r de o Flaenhiraeth, Henllan Amgoed, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0SG | Mae'r ymgeisydd yn gwsmer i'r busnes. |
| Y Cynghorydd S.M. Allen | 3: PL/02848 - Cais cynllunio llawn arfaethedig ar gyfer datblygiad o gartrefi preswyl, mynediad i'r briffordd, parcio, tirlunio a gwaith seilwaith cysylltiedig ar dir i'r de o Erw’r Brenhinoedd, Llandybie, Rhydaman, SA18 2TQ | Mae'n aelod gwirfoddol o Gymdeithas Tai Bro Myrddin. |
| E. Bryer | 3: PL/02533 - Gwaredu Amod 11 o E/27795 (un breswylfa (anghenion lleol)) yng Ngwenlliw, Dryslwyn, Caerfyrddin, SA32 8RF | Ymgeisydd yn berthynas. |

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/38576** | **Preswylfa unllawr â lle byw yn y to a garej integrol ar dir yn ymyl rhif 15 Heol Plas Gwyn, Pen-y-groes, Llanelli, SA14 7RY** |
| **PL/00799** | **Datblygiad Un Blaned ar dir i'r de o Flaenhiraeth, Henllan Amgoed, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0SG**<br><br>(NODER: Roedd y Cynghorydd B.D.J. Phillips wedi datgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach, ailddatganodd y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried;<br><br>Cafwyd sylw gan aelod lleol a wrthwynebai'r cais ac ailadroddodd ychydig o'r pwyntiau gwrthwynebu y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys pryderon penodol mewn perthynas â'r cyflenwad dŵr, a rheoli'r ieir sydd ar y safle.<br><br>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried. |

| | |
|---|---|
| **PL/02848** | **Cais cynllunio llawn arfaethedig ar gyfer datblygiad o gartrefi preswyl, mynediad i'r briffordd, parcio, tirlunio a gwaith seilwaith cysylltiedig ar dir i'r de o Erw'r Brenhinoedd, Llandybie, Rhydaman, SA18 2TQ**<br><br>(NODER: Roedd y Cynghorydd S.M. Allen wedi datgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach, ailddatganodd y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried; |
| **PL/02849** | **Cymeradwyo'r holl faterion a gadwyd yn ôl mewn perthynas â datblygu swyddfeydd ac adeiladau diwydiannol ysgafn newydd ar Blot 3 gan gynnwys adeiladau/strwythurau, tirlunio a seilwaith ategol cysylltiedig yn Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands<br>Plot 3, Cross Hands** |

3.2 **PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/35028** | **Preswylfa ddeulawr, 15A Bryncaerau, Trimsaran, Cydweli, SA17 4DW** |
| **PL/02285** | **Dymchwel y bloc stablau presennol (a adeiladwyd yn rhannol) a chodi preswylfa yn ei le (angen lleol) ar dir gyferbyn â Thŷ Liliwen, Nant-y-caws, Caerfyrddin, SA32 8EP**<br><br>Cafwyd sylw gan yr aelod lleol a oedd yn cefnogi'r cais ar y sail:<br>• Bod y cais o fewn cyfyngiadau'r pentref newydd.<br>• Ni fyddai'r ymgeiswyr yn gallu fforddio gadael cartrefi eu rhieni pe bai'r cais yn cael ei wrthod.<br>• Bod y gwaith adeiladu'n cydymffurfio â graddfa, golwg a thirwedd yr ardal.<br>• Bod y cais yn bodloni'r meini prawf ar gyfer tai fforddiadwy.<br><br>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried. |
| **PL/02533** | **Gwaredu Amod 11 ar E/27795 (un breswylfa (anghenion lleol)) yng Ngwenlliw, Dryslwyn, Caerfyrddin, SA32 8RF**<br><br>(NODER: Roedd y Cynghorydd E. Bryer (Swyddog Gwasanaethau Datblygu) wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried).<br><br>Cafwyd sylw gan yr aelod lleol a oedd yn cefnogi'r cais ar |

| | |
|---|---|
| | y sail:<br>• Oherwydd amgylchiadau personol a'i sefyllfa ariannol bresennol, roedd yr ymgeisydd yn wynebu'r posibilrwydd o golli ei gartref.<br>• Lleolwyd yr eiddo yng nghanol clwstwr o dai a elwir yn Nantarwenlliw ac nad oedd eiddo eraill yn y cyffiniau wedi bod yn ddarostyngedig i'r cymal tai fforddiadwy.<br>• Ni ddylai caniatâd cynllunio fod wedi'i roi o dan delerau tai fforddiadwy oherwydd maint a lleoliad yr eiddo gan fod hyn yn ei golygu ei fod y tu hwnt i allu'r bobl leol o ran fforddiadwyedd.<br><br>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried. |

## 4. PERFFORMIAD Y GWASANAETH CYNLLUNIO - CHWARTER 2

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio ar gyfer Chwarter 2. Roedd yr adroddiad hwn yn adlewyrchu Chwarter 2 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 30 Medi 2021. Roedd hefyd yn cynnwys y data chwarterol cymharol ar gyfer Chwarter 1 a 2020/21.

Gofynnwyd pam roedd dangosyddion perfformiad rhif 14 (Canran yr achosion gorfodi sydd wedi cau yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod) a 15 (Canran yr amser a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi (mewn diwrnodau)) yn dangos dirywiad yn Chwarter 2 o gymharu â Chwarter 1.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y ffigurau'n adlewyrchu'r heriau sy'n gysylltiedig â gorfodi, ond roedd ffigurau'n anghydbwysedd dros dro a fyddai'n gwella pan fyddai'r polisi a'r prosesau diwygiedig yn cael eu rhoi ar waith. Dywedwyd mai'r gobaith oedd y byddai ffigurau Chwarter 3 a diwedd blwyddyn yn dangos gwelliant. Yn ogystal, roedd materion tymor hir yn ymwneud ag adnoddau'n cael sylw a byddai adnoddau'n cael eu sianelu i leihau'r ôl-groniad presennol o ran gorfodi.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR:-

### 5.1. 11EG TACHWEDD, 2021

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2021, gan eu bod yn gywir.**

### 5.2. 23AIN TACHWEDD, 2021

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2021, gan eu bod yn gywir.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]